# Ysgol Tryfan

15/04/15

**I sylw rhieni disgyblion Cyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 7, 8 a 9)**

**Parthed: Profion ac Asesiadau Tymor yr Haf 2015**

Annwyl Riant/Warcheidwad

Ar ddechrau tymor fel hyn hoffwn fanteisio ar y cyfle i dynnu eich sylw at nifer o ddyddiadau pwysig yn ystod y tymor nesaf. Mae'r tymor yma, fel y gwyddoch, yn dymor pwysig sy'n llawn asesiadau a phrofion a hynny ar gyfer pob blwyddyn yn yr ysgol.

Dyma felly amlinelliad cryno o'r prif asesiadau a'r dyddiadau sy'n effeithio arnoch chi:

- Bydd blwyddyn 7, 8 a 9 yn wynebu'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn fuan ym mis Mai. Bydd pob disgybl yn sefyll 4 prawf - un prawf darllen Cymraeg, un prawf darllen Saesneg a dau brawf rhif - y naill ar rifedd gweithdrefnol a'r llall ar resymu rhifyddol. Fe gynhelir y profion hyn ar gyfer blynyddoedd 7, 8 a 9 yn Ysgol Tryfan dros bedwar diwrnod. Cynhelir y prawf Rhesymu Rhif ar gyfer pob blwyddyn fore Gwener 01/05/15. Bydd gweddill y profion yn cael eu cynnal dros dridiau'r wythnos ganlynol Mai 5-7, 2015. Mae'r amserlen yn llawn ar waelod y llythyr hwn. Gellir cael mwy o wybodaeth hefyd trwy ddilyn y ddolen ganlynol i wefan Llywodraeth Cymru, er mai dogfen y llynedd ydyw: http://learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/reading-and-numeracy-tests-information-for-parents-carers/?skip=1&lang=cy
- Bydd profion ychwanegol diwedd blwyddyn yn cael eu cynnal ar gyfer blwyddyn 7 ac 8 yn yr ystafelloedd dosbarth yn ystod yr wythnos Mai 18-22.
- Bydd Blwyddyn 9 yn derbyn lefelau Asesiadau Diwedd Cyfnod Allweddol 3 ddiwedd y tymor hwn. Mae'r asesiadau hyn yn ddibynnol ar asesu parhaus dros dair blynedd ond bydd rhai pynciau yn gosod profion i ddisgyblion blwyddyn 9 ym mis Mai.

Cofiwch fod croeso i chi gysylltu â'r ysgol am ragor o wybodaeth os nad yw'r wybodaeth uchod yn eglur i chi. Fel arall hoffwn ddymuno pob hwyl i'n disgyblion wrth iddynt baratoi am y cyfnod prysur nesaf hwn.

Yn gywir

Gwyn Tudur (Pennaeth)

## Amserlen Profion Cenedlaethol CA3 - 2015

| *Dyddiad* | *Dechrau* | *Gorffen* | *Blwyddyn* | *Pwnc* |
|---|---|---|---|---|
| Gwener 1/5/15 | 09.10am | 10.10am | Bl 7 | Rhesymu |
| Gwener 1/5/15 | 10.10am | 11.10am | Bl 8 | Rhesymu |
| Gwener 1/5/15 | 11.25am | 12.25am | Bl 9 | Rhesymu |
| Mawrth 5/5/15 | 09.10am | 10.40am | Bl 8 | Darllen-Cymraeg |
| Mawrth 5/5/15 | 11.25am | 11.55am | Bl 7 | Rhifedd |
| Mawrth 5/5/15 | 1.30pm | 3.00pm | Bl 9 | Darllen-Saesneg |
| Mercher 6/5/15 | 09.10am | 10.40am | Bl 7 | Darllen-Cymraeg |
| Mercher 6/5/15 | 11.25am | 11.55am | Bl 9 | Rhifedd |
| Mercher 6/5/15 | 1.30pm | 3.00pm | Bl 8 | Darllen-Saesneg |
| Iau 7/5/15 | 09.10am | 10.40am | Bl 7 | Darllen-Saesneg |
| Iau 7/5/15 | 11.25am | 11.55am | Bl 8 | Rhifedd |
| Iau 7/5/15 | 1.30pm | 3.00pm | Bl 9 | Darllen-Cymraeg |

Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎01248 352 633 🖷 01248 361 264
swyddfa@tryfan.gwynedd.sch.uk www.ysgoltryfan.org
Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur

# Ysgol Tryfan

15/04/15

**For the attention of parents of Key Stage 3 pupils (Years 7, 8 and 9)**

**Re: 2015 Summer Term Tests and Assessments**

Dear Parent / Guardian

At the start of term I would also like to take this opportunity to draw your attention to a number of important dates during the next few weeks. This term, as you know, is full of important tests and assessments for children in each school year.

I will therefore outline the key dates and assessments:

- Year 7, 8 and 9 are facing the National Reading and Numeracy Tests in May. All pupils will take 4 tests - one Welsh reading test, one English reading test and two numeracy tests - one procedural numeracy test and the other testing numerical reasoning. These tests for years 7, 8 and 9 will be held at Ysgol Tryfan over four days in May. The numerical reasoning test will be set for all Key Stage 3 pupils on Friday morning 01/05/15. The other three tests will be held the following week over three days 5th-7th of May. The full timetable for each pupil is included at the bottom of this letter. More useful information can also be obtained through the following link to the Welsh Government website, despite being last year's document: http://learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/reading-and-numeracy-tests-information-for-parents-carers/?skip=1&lang=en
- Additional end of year tests will be held for years 7 and 8 pupils in the classrooms during the week May 18th- 22nd.
- Year 9 pupils will of course receive their end of Key Stage 3 Assessments Levels at the end of this term. These assessments are based on continuous assessment over three years but some subjects will set an additional test for year 9 pupils in May.

Please feel free to contact the school for further information if the information above is not clear to you. Otherwise I would like to give my best wishes to all our pupils as they prepare for this busy and important period.

Yours truly

Gwyn Tudur (Headteacher)

## KS3 National Tests - 2015

| *Date* | *Start* | *End* | *Year* | *Subject* |
|---|---|---|---|---|
| Friday 1/5/15 | 09.10am | 10.10am | 7 | Reasoning |
| Friday 1/5/15 | 10.10am | 11.10am | 8 | Reasoning |
| Friday 1/5/15 | 11.25am | 12.25am | 9 | Reasoning |
| Tuesday 5/5/15 | 09.10am | 10.40am | 8 | Reading - Welsh |
| Tuesday 5/5/15 | 11.25am | 11.55am | 7 | Numeracy |
| Tuesday 5/5/15 | 1.30pm | 3.00pm | 9 | Reading - English |
| Wednesday 6/5/15 | 09.10am | 10.40am | 7 | Reading - Welsh |
| Wednesday 6/5/15 | 11.25am | 11.55am | 9 | Numeracy |
| Wednesday 6/5/15 | 1.30pm | 3.00pm | 8 | Reading - English |
| Thursday 7/5/15 | 09.10am | 10.40am | 7 | Reading - English |
| Thursday 7/5/15 | 11.25am | 11.55am | 8 | Numeracy |
| Thursday 7/5/15 | 1.30pm | 3.00pm | 9 | Reading - Welsh |

Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎01248 352 633 🖷 01248 361 264
swyddfa@tryfan.gwynedd.sch.uk www.ysgoltryfan.org
Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur